Cyfoeth Naturiol Cymru
Natural Resources Wales

Cardiau adnoddau

# Ffawd yn y fflamau



Dychmygwch eich bod yn berson oedrannus, yn dioddef o arthritis ac yn byw ar eich pen eich hun. Wrth ddeffro un bore rydych chi'n troi'r teledu ymlaen i weld adroddiad bod tanau gwyllt yn eich ardal. Pan rydych chi'n edrych drwy'r ffenest, gallwch chi weld fflamau uchel yn y pellter.

**Trafodwch:**


- Beth allech chi fod yn poeni amdano?
- Beth allech chi fod yn ei deimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud a gyda phwy fyddech chi'n cysylltu?




**Dychmygwch eich bod chi a'ch teulu newydd ddychwelyd adref o wyliau. Allwch chi ddim cyrraedd eich tŷ gan fod eich stryd wedi'i chau gan y gwasanaethau brys, sy'n ymateb i danau gwyllt yn yr ardal. Rydych chi i gyd wedi blino'n lân ar ôl taith hir ac yn ysu am gawod gynnes, ychydig o fwyd a'ch gwelyau.**

**Trafodwch:**

- Beth allech chi fod yn poeni amdano?
- Beth allech chi fod yn ei deimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud a gyda phwy fyddech chi'n cysylltu?



**Dychmygwch eich bod chi'n bennaeth ysgol leol. Rydych chi'n cael galwad ffôn yn oriau mân y bore gan y Gwasanaeth Tân ac Achub, i ddweud bod tanau gwyllt wedi lledu ar dir yr ysgol. Mae'r gwasanaethau brys wedi diffodd y tân ond bellach mae nifer o'r ystafelloedd dosbarth wedi'u difetha gan ddŵr. Mae'r maes chwarae wedi toddi ac yn dal i fygu. Y tu mewn i'r ysgol, mae dodrefn, llyfrau a chyfrifiaduron yn wlyb domen.**

**Trafodwch:**

- Beth allech chi fod yn poeni amdano?
- Beth allech chi fod yn ei deimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud a gyda phwy fyddech chi'n cysylltu?



**Dychmygwch fod gennych nam ar eich golwg a bod gennych gi tywys i'ch cynorthwyo i symud yn ddiogel. Mae eich ystafell wely ar y llawr gwaelod er mwyn cael mynediad hawdd. Rydych chi'n deffro yn y nos ac yn gallu arogli mwg a chlywed sŵn clecian trwy ffenestr agored eich ystafell wely. Rydych chi'n gwybod bod tanau gwyllt weithiau'n cael eu cychwyn yn fwriadol yn y coed y tu ôl i'ch cartref.**

Trafodwch:

- Beth allech chi fod yn poeni amdano?
- Beth allech chi fod yn ei deimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud a gyda phwy fyddech chi'n cysylltu?



**Dychmygwch eich bod yn berchen ar siop goffi leol. Rydych chi'n cyrraedd yn y bore, ar ôl clywed ar radio eich car fod criwiau wedi bod yn brwydro tanau gwyllt lleol yn ystod y nos. Wrth agor eich siop, rydych chi'n gweld ei bod yn llawn mwg sy'n arogli'n ofnadwy ac wedi difrodi'ch waliau sydd newydd eu paentio. Mae'r eitemau bwyd, ffa coffi, byrddau, cadeiriau a llestri wedi'u gorchuddio â huddygl ac wedi'u halogi gan fwg.**

Trafodwch:

- Beth allech chi fod yn poeni amdano?
- Beth allech chi fod yn ei deimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud a gyda phwy fyddech chi'n cysylltu?



Dychmygwch eich bod yn weithiwr gofal lleol, yn gofalu am drigolion bregus yr ardal. Rydych chi'n dechrau gweithio un bore, ac mae angen i chi ymweld â 6 o drigolion lleol sydd i gyd angen llawer o gefnogaeth gydag ymolchi, gwisgo, paratoi bwyd a chymryd eu meddyginiaeth. Wrth deithio at eich claf cyntaf, rydych chi'n darganfod bod tanau gwyllt wedi lledu dros nos. Mae'r tanau wedi'u diffodd ond mae'r ardal gyfan yn drewi o fwg, mae ffyrdd ar gau, ac mae'r gymdogaeth dan ddŵr ar ôl brwydro'r tanau. Mae'n edrych yn debyg na fyddwch chi'n gallu cyrraedd y bobl sydd angen eich help heddiw.

**Trafodwch:**

- Beth allech chi fod yn poeni amdano?
- Beth allech chi fod yn ei deimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud a gyda phwy fyddech chi'n cysylltu?



Dychmygwch eich bod yn rheoli'r ganolfan achub anifeiliaid leol. Rydych chi ar eich diwrnod i ffwrdd o'r gwaith, ac rydych chi wedi gadael y ganolfan a'r anifeiliaid yn nwylo diogel un o'ch gwirfoddolwyr. Rydych chi'n cael galwad gan y gwasanaethau brys, yn eich rhybuddio am danau gwyllt gerllaw a bod nifer o anifeiliaid gwyllt sydd wedi'u hanafu ar y ffordd i'r ganolfan achub anifeiliaid, a bod angen eu trin ar unwaith.

**Trafodwch:**

- Beth allech chi fod yn poeni amdano?
- Beth allech chi fod yn ei deimlo?
- Beth fyddech chi'n ei wneud a gyda phwy fyddech chi'n cysylltu?